



Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER

Ministry of
JUSTICE

Lleihau nifer a chost hawliadau am anafiadau atchwipio

Ymgynghoriad ar drefniadau ar gyfer
anafiadau atchwipio yng Nghymru a
Lloegr

Crynodeb gweithredol

Rhagfyr 2012

Crynodeb Gweithredol

1. Rhwng 2006 a 2012, gwelwyd gostyngiad o 20% mewn damweiniau traffig ar y ffordd a gafodd eu riportio.¹ Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd cynnydd o 60% yn nifer yr hawliadau am anaf personol yn sgil damweiniau traffig ar y ffordd.² Daw oddeutu 2.7 hawliad am iawndal o ganlyniad i anafiadau atchwipio i law am bob damwain sy'n cael ei riportio ac mae data Uned Adfer Iawndal yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos bod oddeutu 70% o hawliadau anaf personol yn sgil damwain traffig ar y ffordd yn hawliadau am anaf atchwipio. Mae'r gyfradd hon gryn dipyn yn uwch nag y mae mewn gwledydd eraill: dangosodd astudiaeth gymharol yn 2004 mai 47% yw'r gyfradd gyfatebol yn yr Almaen a 32% yn Sbaen. Yn Ffrainc mae'r gyfradd cyn lleied â 3%.³
2. Mae'r cynnydd hwn wedi peri pryder mawr ac wedi cael effaith sylweddol. Yn ôl Cymdeithas Yswirwyr Prydain, mae oddeutu £90 o gost y premiwm yswirio car ar gyfartaledd yn deillio o gost anafiadau atchwipio. I gyd gyda'i gilydd, anafiadau atchwipio sydd i gyfrif am bron i £2bn o daliadau iawndal y flwyddyn, sy'n gyfrifol am 20% o'r premiwm yswirio car nodweddiadol.⁴
3. Mae'r Llywodraeth eisoes yn cymryd camau sylweddol i wrthdroi'r patrwm hwn ar ffurf gweithredu penodol yng nghyswllt anafiadau atchwipio. Yn sgil uwchgynhadledd y Prif Weinidog ar 14 Chwefror 2012, byddwn yn darparu canllawiau gwell i feddygon ar anafiadau atchwipio, yn ystyried datblygu profion diagnostig gwell a, drwy'r Rheoleiddiwr Rheoli Hawliadau, byddwn yn rhoi cymorth i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gyda'r gwaith o fynd i'r afael yn llym â chamdddefnyddio data sy'n gysylltiedig â negeseuon testun annymunol a allai annog hawliadau anghyfreithlon. Bydd pecyn mesurau'r Llywodraeth yn helpu i daclo achosion craidd y costau gormodol hyn.
4. Mae'r camau hyn yn cael eu cymryd o fewn y cyd-destun ehangach o ddiwygiadau sylweddol i gyllid a chostau ymgyfreitha sifil a gaiff eu cyflwyno gan y Llywodraeth ym mis Ebrill 2013. Mae'r diwygiadau hyn, sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 2 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012 a mesurau cysylltiedig, yn gweithredu ar argymhellion yr Arglwydd Ustus Jackson.
5. Yn ogystal â'r gwaith hwn, mae'r Llywodraeth yn gweithio ar opsiynau i leihau nifer yr hawliadau anafiadau atchwipio twyllodrus neu ormodol a chost y rhain i'r cyhoedd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried dau faes ar gyfer newid.

¹ Ffynonellau'r Adran Drafnidiaeth:

<http://www.dft.gov.uk/statistics/tables/ras40007/>

<http://www.dft.gov.uk/statistics/tables/ras45009/>

² Ffynonellau Uned Adfer Iawndal yr Adran Gwaith a Phensiynau:

<http://www.dwp.gov.uk/other-specialists/compensation-recovery-unit/performance-and-statistics/performance-statistics/>

³ http://www.svv.ch/sites/default/files/document/file/CEA_HWS-Studie_englisch.pdf

⁴ http://www.abi.org.uk/Publications/Tackling_Whiplash_Prevention_Care_Compensation1.aspx

6. Y cyntaf yw'r trefniadau ar gyfer diagnosiso anafiadau atchwipio. Fel anaf i feinwe meddal, mae anafiadau atchwipio yn gallu bod yn anodd eu diagnosiso, ac mae'r dystiolaeth yn aml yn seiliedig ar ddisgrifiad yr hawlydd o ddamwain ac o'r boen neu'r anesmwythder y mae'n ei deimlo. Mae'n bosibl y gall yr anaf fod wedi gwella erbyn yr amser y gofynnir i'r meddyg am ddiagnosis neu erbyn yr amser y cyflwynir yr hawliad. O gofio'r anhawster sydd ynghlwm â chael diagnosis cywir, mae dadleuon o blaid symud i baneli meddygol⁵ sydd wedi'u penodi neu eu hachredu gan y llys. Gallai'r paneli wella'r mater o ddiagnosiso anaf atchwipio.
7. Yr ail faes yw ar ba lefel y dylid pennu'r trothwyon ar gyfer iawndal yng nghyswllt hawliadau am naill ai anaf personol neu anaf atchwipio dan y trac Hawliadau Bychain. Lluniwyd y trac hwn i fod yn fwy addas ar gyfer hawliadau cymharol syml ac ar gyfer ymgyfreithwyr sy'n cynrychioli eu hunain.
8. Mae yswirwyr yn dweud yn rheolaidd nad yw'n rhesymegol i herio llawer o hawliadau o gofio bod gwerth yr hawliad yn llai na chost ei herio yn aml. Felly, mae'n bosibl nad yw'r trefniadau presennol yn cynnig ysgogiad effeithiol i ganiatáu profi hawliadau twyllodrus yn briodol. Canlyniad buddiol i godi'r trothwy iawndal ar gyfer hawliadau am anaf personol fyddai herio hawliadau gormodol a/neu dwyllodrus, a allai leihau nifer yr hawliadau o'r fath sy'n cael eu gwneud.
9. Yn y cyswllt hwn, rydym yn cydnabod bod y diwygiadau yn Rhan 2 Deddf LASPO 2012 yn debygol o leddfu'r problemau presennol i ryw raddau. Bydd newid cytundebau ffi amodol a gwahardd talu a derbyn ffioedd atgyfeirio mewn achosion Anaf Personol yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r costau sydd ynghlwm ag ymgyfreitha sifil a'r diwylliant hawliadau presennol. O gofio difrifoldeb y broblem a'i heffaith ar unigolion, mae'r Llywodraeth yn credu bod angen gweithredu pellach i leihau nifer a chost hawliadau.
10. Felly, mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ynghylch yr opsiynau o ran cynyddu trothwy'r trac Hawliadau Bychain perthnasol yng nghyswllt iawndal o'r £1,000 cyfredol i £5,000, gyda golwg ar ddarparu llwybr hawdd ar gyfer hawliadau cymharol syml a lleihau'r gost a ddylai helpu o ran ei gwneud yn fwy tebygol bod hawliadau gormodol a thwyllodrus yn cael eu herio.
11. Mae hawliadau yr ymdrinnir â nhw dan y trac Hawliadau Bychain fel arfer yn arwain at y naill ochr a'r llall yn talu eu costau eu hunain, sy'n golygu y byddai'n ei gwneud yn fwy ymarferol yn economaidd i ddiffynyddion herio hawliadau twyllodrus neu ormodol, o gofio bod llai o berygl o orfod talu costau uchel os collir yr achos. Yn ogystal, byddai'r rheolau a fyddai'n berthnasol i gostau yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddai hawlwr yn cael eu hatal rhag gwneud hawliadau o'r fath oni bai eu bod wedi'u hanafu go iawn.

⁵ cofrestr o ymarferwyr meddygol achrededig cymeradwy sy'n gallu asesu hawlwr sy'n dioddef o anafiadau atchwipio posibl yn sgil damwain traffig ar y ffordd.

12. Pwrpas y trac Hawliadau Bychain yw delio â hawliadau cymharol syml a gwasanaethu ymgyfreithwyr sy'n cynrychioli eu hunain. Barnwyr Rhanbarth sydd fel arfer yn llywyddu ac mae'n ddyletswydd arnynt i sicrhau tegwch pan mae un parti yn cynrychioli ei hun.
13. Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau y seilir yr ymgynghoriad arnynt yn ei gwneud yn llai tebygol y gwneir hawliadau twyllodrus neu ormodol, ac os gwneir hawliadau o'r fath, byddant yn cael eu profi'n briodol. Dylai bod gostyngiadau o'r fath yn cael eu hadlewyrchu yn y premiymau yswiriant y bydd pob gyrrwr yn eu talu, o gofio bod y diwydiant yswiriant wedi ymrwymo i basio unrhyw arbedion ymlaen i ddeiliaid polisïau.
14. Mae'r Llywodraeth yn derbyn y gall dadleuon ynghylch mynediad at gyfiawnder a hawliau cyfatebol godi, ac mae'n ymwybodol iawn o'r angen i warchod mynediad a chydaddoldeb. Y tro diwethaf yr ymgynghorwyd ynghylch codi'r trothwy ar gyfer pob hawliad Anaf Personol oedd yn 2007. Er gwaethaf tystiolaeth o gostau uchel, roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn erbyn cynnydd, yn rhannol ar y sail honno.
15. Yn y gorfennol, ystyriwyd bod hawliadau Anaf Personol yn rhy gymhleth i ymgyfreithwyr oedd yn cynrychioli eu hunain, ac mae perygl y gallai'r rheiny â hawliadau rhesymol naill ai beidio â herio penderfyniad anffafriol afresymol ar ran yswiriwr neu beidio â hawlio iawndal priodol am eu hanafiadau. Fodd bynnag, mae hawliadau anaf atchwipio yn tueddu i fod yn haws eu hystyried na mathau eraill o hawliadau Anaf Personol, a'r rhain sydd bellach yn ffurfio'r rhan helaethaf o ddigon o hawliadau Anaf Personol yn sgil damwain traffig ar y ffordd gwerth isel.
16. Mae'r Llywodraeth yn derbyn bod hwn yn faes cymhleth ac mae'n parhau i ystyried amryw o opsiynau ar gyfer taclo problemau sydd ynghlwm ag anaf atchwipio. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i glywed unrhyw awgrymiadau eraill sydd gan bartïon cyfrannog.

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u nodi yn y papur ymgynghori o'r enw 'Lleihau nifer a chost hawliadau am anafiadau atchwipio'.

Cwestiwn 1: Yn y dyfodol, ydych chi'n cytuno y dylai paneli meddygol annibynnol ddarparu adroddiadau meddygol yng nghyswllt hawliadau am anafiadau atchwipio, gan ddefnyddio ffurflen safonol, ac y dylai'r rhain fod ar gael i hawlwyrr, yswirwyr, a'r llysoedd (yng nghyswllt hawliadau sy'n cael eu herio)?

Ydw

Nac ydw

Sylwadau:

Cwestiwn 2: Os na, sut fydddech chi'n ymdrin â'r problemau sydd wedi'u rhestru ym mharagraffau 35 i 39 yn ail ran y ddogfen ymgynghori hon?

Cwestiwn 3: Pa fodel a ddylid ei fabwysiadu ar gyfer y paneli meddygol annibynnol - Achredu, contract cenedlaethol ar sail yn ôl y gofyn neu ryw amrywiad arall?

Cynllun Achredu

Contract Cenedlaethol ar sail yn ôl y gofyn

Arall

Sylwadau:

Cwestiwn 4: Ydych chi'n meddwl y dylid ymgorffori elfen o adolygu gan gymheiriaid ym mhob asesiad, neu yng nghyswllt sampl o asesiadau at ddibenion archwilio yn unig?

Ydw

Nac ydw

Sylwadau:

Cwestiwn 5: Sut ddylid dyrannu a delio â chostau?

Sylwadau:

Cwestiwn 6: A ddylid codi trothwy'r trac Hawliadau Bychain i £5,000 ar gyfer hawliadau anaf atchwipio yn sgil damwain traffig ar y ffordd, i £5,000 ar gyfer pob hawliad anaf personol yn sgil damwain traffig ar y ffordd neu beidio â'i newid?

Anaf Atchwipio yn sgil damwain traffig ar y ffordd

Anaf Personol yn sgil damwain traffig ar y ffordd

Dim newid

Sylwadau:

Cwestiwn 7: A fydd hyn yn cael effaith ar y Protocol ar gyfer damwain traffig y ffordd ac a oes modd lliniaru'r effaith honno?

Bydd

Na

Sylwadau:

Cwestiwn 8: Beth arall ddylai'r Llywodraeth ystyried ei wneud i leihau cost hawliadau anaf atchwipio twyllodrus a/neu ormodol?

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb sydd wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon? Os na, esboniwch pam os gwelwch yn dda.

Ydw

Nac ydw

Sylwadau:

Cwestiwn 10: Rhowch dystiolaeth o unrhyw ffyrdd y mae'r weithdrefn dan y trefniadau presennol yn effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig gwahanol yng nghyswllt cydraddoldeb

Cwestiwn 11: Ydych chi'n credu y bydd cyflwyno paneli meddygol annibynnol i asesu anafiadau atchwipio yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig yng nghyswllt cydraddoldeb? Os ydych chi, rhowch fanylion.

Ydw

Nac ydw

Sylwadau:

Cwestiwn 12: Ydych chi'n credu y bydd codi'r terfyn ar gyfer hawliadau bychain yng nghyswllt hawliadau anaf personol yn sgil damwain traffig ar y ffordd/Anaf Atchwipio o £1,000 i £5,000 yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig yng nghyswllt cydraddoldeb? Os ydych chi, rhowch fanylion.

Ydw

Nac ydw

Sylwadau:

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn

Pan fyddwch wedi cwblhau'ch ymateb anfonwch ef at:

Scott Tubbritt
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
4.23, 102 Petty France
Llundain, SW1H 9AJ

Ffacs: 0870 739 4268

E-bost: whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun

Enw llawn	
Teitl eich swydd neu ym mha swyddogaeth yr ydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ayb.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch yma	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch, os gwelwch yn dda)
Y cyfeiriad i anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych chi'n cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r mudiadau rydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 8 Mawrth 2013 at:

Scott Tubbritt
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Pwynt Post 4.23, 102 Petty France
Llundain, SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 3157
Ffacs: 0870 739 4268
E-bost: whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae copïau papur pellach o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad uchod ac maent hefyd ar gael ar lein yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>.

Gellir gwneud cais am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol gan:

Scott Tubbritt
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
102 Petty France
Llundain, SW1H 9AJ
Ffacs: 0870 739 4268
E-bost: whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk

Cyhoeddi ymatebion

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ym mis Mai 2013. Bydd y papur ymatebion ar gael ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>.

Grwpiau cynrychioladol

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi disgrifiad cryno o'r bobl a'r mudiadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Gall gwybodaeth a ddarperir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â gweithdrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei chadw'n gyfrinachol, rhaid i ni eich atgoffa bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymadau cyfrinachedd. Oherwydd hyn, byddai'n fuddiol pe gallech esbonio wrthym pam eich bod yn credu bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os ydym yn

derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, rhoddwn ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn addo y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG chi, ynddo'i hun, yn un sy'n rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a dan y mwyafrif o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

© Hawlfraint y Goron 2012

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

I weld y drwydded hon, ewch i: www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at:
whiplashcondoc@justice.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael i'w lwytho oddi ar y we yn: www.official-documents.gov.uk

ac oddi ar ein gwefan yn: www.justice.gov.uk